

Y WEITHDREFN YSTYRIED CYMRODORIAETHAU ANRHYDEDDUS			
Adran	Y Bwrdd Llywodraethwyr		
Awdur	Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr		
Awdurdodwyd gan:	Y Bwrdd Llywodraethwyr		
Gweithredir gan:	Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu		
Cyfeirnod y Polisi/y Weithdrefn:	PRBOG2223056		
Y Polisi / y Weithdrefn a ddisodlwyd:	PRBOG1819039		
Fersiwn rhif:	3	Y Pwyllgor cymeradwyo:	Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
Dyddiad cymeradwyo/adolygu:	10/6/22	Rhif y cofnod:	21.35.02
Statws:	Cymeradwy wyd	Dyddiad gweithredu:	Gorffennaf 2022
Cyfnod y gymeradwyaeth:	3 blynedd	Dyddiad adolygu:	Mehefin 2025

1. Cyflwyniad a gwybodaeth gyffredinol

- 1.1. Mae gan y Bwrdd Llywodraethwyr y grym i gymeradwyo'r statws Cymrodor Anrhydeddus, i'w roi i unigolion sydd, yn ei farn, wedi gwasanaethu'r Brifysgol neu'r gymuned ehangach mewn modd nodedig.
- 1.2. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am sefydlu gweithdrefnau ar gyfer enwebu a chymeradwyo Cymrodorion Anrhydeddus y Brifysgol ac mae wedi dirprwyo hyn i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i ddethol ymgeiswyr addas a gwneud argymhellion i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

1.3. Cymrodor Anrhydeddus Prifysgol Glyndwr

Gellir rhoi'r teitl 'Cymrodor Anrhydeddus' i unrhyw un o staff blaenorol y Brifysgol neu aelod blaenorol o'r Bwrdd Llywodraethwyr, neu i enwebeion o'r gymuned leol neu'r gymuned ehangach, waeth beth yw eu cymwysterau academaidd.

Bydd enwebeion yn gymwys os ydynt yn bodloni'r meini prawf isod:

- (i) Yn cefnogi buddiannau Prifysgol Glyndwr neu elfen benodol o weithgareddau'r Brifysgol;
- (ii) Yn hybu dibenion academaidd y Brifysgol;

- (iii) Yn meithrin cysylltiadau rhwng y Brifysgol a sefydliadau eraill yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;
- (iv) Yn cyfrannu'n sylweddol at y gymuned leol neu'r gymuned ehangach, er enghraifft, ym maes cerddoriaeth a'r celfyddydau, gwyddoniaeth neu fyd busnes.

2. Pwy sy'n gymwys i gael eu henwebu

- 2.1. Ni fydd llywodraethwyr na staff y Brifysgol yn gymwys i gael Cymrodoriaeth Anrhydeddus tra byddant yn parhau yn eu swydd¹.
- 2.2. Yn arferol ni fydd llywodraethwyr blaenorol neu gyn aelodau staff yn gymwys i'w henwebu am gymrodoriaeth anrhydeddus cyn pen blwyddyn o adael eu swydd berthnasol.
- 2.3. Ni ddylid dyfarnu Cymrodoriaeth Anrhydeddus i Aelodau Seneddol nac Aelodau Senedd gweithredol, yn cynnwys Gweinidogion y Cabinet yn San Steffan neu'r Senedd.

3. Pwy sy'n gymwys i enwebu

- 3.1. Gellir gwahodd enwau unigolion arfaethedig ar gyfer cymrodoriaeth anrhydeddus gan:
 - Y Bwrdd Llywodraethwyr
 - Staff gwasanaethau academaidd a gwasanaethau proffesiynol y Brifysgol
 - Myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr y Brifysgol

4. Y Weithdrefn i ethol Cymrodorion Anrhydeddus

4.1. Enwebiadau

- (i) Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn derbyn ac yn ystyried amrediad o enwebeion ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Llywodraethwyr, fel bo'n briodol.
- (ii) Bydd Clerc y Bwrdd yn gwahodd enwebiadau, trwy gyfrwng hysbysiad, o blith y grwpiau hynny a restrir yn 3.1. Bydd yr hysbysiad yn nodi dyddiad ac amser cyflwyno enwebiadau i'r Clerc a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu lle bydd yr enwebiadau'n cael eu hystyried.
- (iii) Rhaid i'r holl enwebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig, a'u llofnodi gan y cynigydd (nid oes angen eilydd) a rhaid rhoi crynodeb (ar y ffurflen a ddarperir a dim mwy nag un ochr o A4) yr achos o blaid rhoi Cymrodoriaeth Anrhydeddus. Rhaid i gynigydd nodi eu henw a'u teitl yn glir.
- (iv) Bydd Clerc y Bwrdd, mewn ymgynghoriad â'r Is-Ganghellor, os yw'n briodol, yn sicrhau bod yr holl enwebiadau'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd (a nodir yn 1.3) a bod nifer sylweddol a phriodol o enwebeion i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu eu hystyried. Os nad yw enwebeion yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd bydd y Clerc yn cysylltu â'r cynigydd i esbonio hynny.

¹ Nid oes gwaharddiad ar bobl y rhoddwyd Cymrodoriaeth Anrhydeddus y Brifysgol iddynt rhag dod yn aelodau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn y dyfodol.

- (v) Ni ddylai'r cynigydd gysylltu â'r enwebai i ofyn a ydynt yn fodlon derbyn Cymrodoriaeth Anrhydeddus, cyn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd (cyfeiriwch at 4.3).
- (vi) Gall Clerc y Bwrdd gysylltu â chynigwyr i gael rhagor o wybodaeth am ymgeiswyr, os penderfynir bod hynny'n briodol.

4.2. Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

- (i) Bydd yr enwebiadau, a thrafodaethau ac ymchwil y Pwyllgor Enwebiadau a'i argymhellion i'r Bwrdd Llywodraethwyr, yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol gan yr holl unigolion sy'n ymwneud â'r broses.
- (ii) Bydd penderfyniad y Bwrdd Llywodraethwyr yn derfynol.
- (iii) Gall enwebeion a fu'n aflwyddiannus gael eu cynnig eto pan gyhoeddir yr hysbysiad nesaf.

4.3. Y broses rhoi'r gymrodoriaeth

- (i) Bydd Cadeirydd y Bwrdd, neu ei enwebai, sef yr Is-Ganghellor yn ymarferol, yn ysgrifennu at unigolion y bwriedir rhoi Cymrodoriaeth Anrhydeddus Prifysgol Glyndŵr iddynt, yn eu hysbysu am benderfyniad y Bwrdd Llywodraethwyr ac yn eu gwahodd i dderbyn y teitl ar y dyddiad a bennwyd ar gyfer Seremonïau Dyfarnu Gwobrau'r Brifysgol.
- (ii) Dan amgylchiadau arbennig, gellir trefnu seremoni arbennig, gyda chymeradwyaeth y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu:
 - ar ddyddiad amgen i ddyddiadau arferol Seremonïau Dyfarnu Gwobrau'r Brifysgol; a/neu
 - mewn lleoliadau priodol y tu allan i'r brif Brifysgol.
- (iii) Ni fydd Cymrodoriaethau Anrhydeddus yn cael eu rhoi mewn cyfarfod y Brifysgol yn eu habsenoldeb neu trwy ddirprwy.
- (iv) Yn arferol ni fydd Cymrodoriaethau Anrhydeddus yn cael eu rhoi mewn cynulliad o'r Brifysgol ar ôl marwolaeth yr unigolyn.

5. Hawliau, breintiau a'r disgwyliadau gan Gymrodorion Anrhydeddus Prifysgol Glyndŵr

5.1. Bydd Gymrodorion Anrhydeddus Prifysgol Glyndŵr:

- (i) yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Brifysgol a rhannu eu harbenigedd â staff a myfyrwyr y Brifysgol fel bo'n briodol ac fel y cytunwyd ar y cyd;
- (ii) yn cael eu gwahodd i ddod i ddigwyddiadau seremonïol y Brifysgol, fel bo'n briodol;
- (iii) yn meddu ar yr hawl i wisgo clogyn Cymrodor mewn digwyddiadau seremonïol priodol;
- (iv) yn cael defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol sydd ar gael i staff yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau a nodwyd gan y Brifysgol;

(v) yn derbyn diweddariadau ynghylch datblygiadau yn y Brifysgol.

**ENWEBIADAU AM GYMRODORIAETHAU ANRHYDEDDUS
CWBL GYFRINACHOL**

Mae'n bwysig bod enwebiadau'n cael eu trin mewn cyfrinachedd llwyr. Bydd Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd yn penderfynu i bwy y dylid dyfarnu cymrodoriaeth anrhydeddus yn unol â'i broses ddethol. Bydd enwebeion llwyddiannus yn cael eu gwahodd, trwy Swyddfa'r Is-Ganghellor, i fod yn Gymrodorion Anrhydeddus yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor Enwebiadau.

Enw'r Enwebai	
Cyfeiriad yr enwebai	
Swydd yr enwebai	

Y rheswm am enwebu (Rhowch gymaint o wybodaeth ag y bo modd, os gwelwch yn dda, gan ystyried y meini prawf enwebu)

Enw'r Cynigydd:

Llofnod: Dyddiad: